# Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

**2020 dsc 1**

## RHAN 3

DYLETSWYDD GONESTRWYDD

*Gofynion gweithdrefnol a gofynion eraill*

### 11 Dehongli "gofal iechyd" a thermau eraill

(1) Mae cyfeiriad yn y Rhan hon at ofal iechyd yn gyfeiriad at wasanaethau a ddarperir yng Nghymru o dan neu yn rhinwedd Deddf 2006 ar gyfer neu mewn cysylltiad ag—

(a) atal salwch, gwneud diagnosis ohono neu ei drin;

(b) hybu ac amddiffyn iechyd y cyhoedd.

(2) Yn is-adran (1), mae i "salwch" yr ystyr a roddir i "illness" yn adran 206 o Ddeddf 2006.

(3) Mae cyfeiriad yn y Rhan hon at gorff GIG yn gyfeiriad at—

(a) Bwrdd Iechyd Lleol;

(b) ymddiriedolaeth GIG;

(c) Awdurdod Iechyd Arbennig;

(d) darparwr gofal sylfaenol.

(4) Mae person yn ddarparwr gofal sylfaenol, at ddibenion y Rhan hon, i'r graddau (a dim ond i'r graddau) y mae'r person yn darparu gofal iechyd ar ran Bwrdd Iechyd Lleol yn rhinwedd contract, cytundeb neu drefniant o dan Ran 4, 5, 6 neu 7 o Ddeddf 2006 rhwng y person a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

(5) Mae gofal iechyd a ddarperir gan un corff GIG (y "corff darparu") ar ran corff GIG arall ("y corff GIG trefnu"), yn rhinwedd contract, cytundeb neu drefniant a wneir o dan Ddeddf 2006 rhwng y corff darparu a'r corff trefnu, i'w drin at ddibenion y Rhan hon fel pe bai'n cael ei ddarparu gan y corff darparu, nid y corff trefnu.

(6) Mae gofal iechyd a ddarperir gan berson ac eithrio corff GIG (y "darparwr"), ar ran corff GIG, pa un ai yn rhinwedd contract, cytundeb neu drefniant a wneir o dan Ddeddf 2006 neu fel arall, i'w drin at ddibenion y Rhan hon fel pe bai'n cael ei ddarparu gan y corff GIG, nid y darparwr.

(7) Yn y Rhan hon—

ystyr "Awdurdod Iechyd Arbennig" ("*Special Health Authority*") yw corff a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf 2006; ond nid yw'n cynnwys unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig trawsffiniol (o fewn yr ystyr a roddir i "cross-border Special Health Authority" yn adran 8A(5) o Ddeddf 2006) ac eithrio Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG;

mae i "defnyddiwr gwasanaeth" ("*service user*") yr ystyr a roddir gan adran 3(2);

mae i "gweithdrefn gonestrwydd" ("*candour procedure*") yr ystyr a roddir gan adran 4(1);

mae "niwed" ("*harm*") yn cynnwys niwed seicolegol ac, yn achos defnyddiwr gwasanaeth sy'n feichiog, golli neu niweidio'r plentyn heb ei eni.